~~Pam 12~~ 6

# AILDREFNIAD CYMDEITHAS,

GAN

## R. J. DERFEL,

PAPYR A DDARLLENWYD I

Gymdeithas Genedlaethol Cymry Manchester,

Nos Wener, Rhagfyr 16eg, 1888.

---

PRIS UN GEINIOG.



Pris i'w rhanu a'u dosbarthu, 4s. y cant; drwy y Parcel Post, 4s. 6c. y cant.

Yr Arian i'w hanfon gyda yr archeb.

---

CYHOEDDWYD GAN

R. J. DERFEL, 6, STOVE STREET, MANCHESTER.

Digitized by Google

## LLYFRAU CYHOEDDEDIG R. J. DERFEL.

| | s. | c. |
|---|---|---|
| RHOSYN MEIRION ... ... ... ... ... ... ... ... | 0 | 6 |
| BARDD CRISTIONOGOL ... ... ... ... ... ... ... | 0 | 6 |
| BRAD Y LLYFRAU GLEISION ... ... ... ... ... | 2 | 0 |
| CANEUON MIN Y FFORD ... ... ... ... ... ... | 1 | 0 |
| MUNUDAU SEGUR ... ... ... ... ... ... ... ... | 2 | 0 |
| TRAETHODAU AC AREITHIAU ... ... ... ... ... | 2 | 6 |
| CANEUON GWLADGAROL CYMRU ... ... ... ... | 1 | 0 |
| Blaenffrwyth Ardudwy Ar Ddiwylliad Y Meddwl ... .. (Traethawd Buddugol) | 1 | 0 |
| GEIRIAU MOLIANT ... ... ... ... ... ... ... ... | 1 | 0 |
| SONGS FOR WELSHMEN ... ... ... ... ... ... | 1 | 0 |
| HYMNS AND SONGS FOR THE CHURCH OF MAN | 1 | 0 |

(*One out of many favourable Press Notices*).

"This is a very remarkable little volume. The writer, who conceals himself under the *nom de plume* "Munullog," is a man of extraordinary natural intelligence, elevation of spirit, and nobility of character; . . . . . . .
It is impossible to read through the prose essay on "Creeds," which opens the volume, and the other prose essay on "Religious Reform," with which it closes, without experiencing a very lively feeling of delight at being brought into contact with the brave and wise man who penned them. Did the *Brochure* contain nothing but these two papers, it would be a great bargain at the shilling that is charged for it; but we feel that there is something singularly incongruous in attempting to assign any monetary value whatever to these compositions, which are obviously the frank and unconsciously courageous utterances of a soul that stands "four-square to every wind that blows."

BRITISH MUSEUM

Digitized by Google

# AILDREFNIAD CYMDEITHAS.

Pe gofyniad i mi, pa beth yw y pwysicaf, o'r holl bethau sydd yn galw ac yn hawlio sylw diwygwyr yr oes bresenol? atebwn yn ddibetrus, "AILDREFNIAD CYMDEITHAS." Dyma yn ddiddadl yw y pwnc mawr sydd yn curo wrth y drws ac yn gwrthod tewi, nes cael y sylw a hawlia. Ac fe ddeil i guro yn uwch ac yn uwch, nes bydd y rhai sydd mewn awdurdod yn gorfod gwrando a chydsynio a hawliau y bobl.

Wrth son am aildrefnu cymdeithas, y peth cyntaf i sylwi arno, ydyw y drefn sydd ar gymdeithas yn bresenol, ar achos neu achosion ag sydd yn galw am ddiwygiad. Mae yr achosion hyn mor luosog, amrywiol, a mawrion, fel nad ellir yn yr amser at ein gwasanaeth yn bresenol, ond taflu cipdrem arnynt—rhyw braidd-gyffwrdd ar penaf a mwyaf amlwg o honynt.

Am y drefn bresenol ar gymdeithas gellir dweud yn gyntaf mai trefn ddi-drefn; cynllun, di-gynllun, ydyw. Yn Caban f'ewyrth Twm, un o'r cymeriadau ydyw Topsi. Pan ofynwyd i Topsi pa bryd y ganwyd hi, atebodd: "Ni anwyd fi o gwbl, tyfu wnaethum I." Felly y gellir dweud am gymdeithas—tyfiad ydyw. Pan edrychir ar dy neu offeryn, neu beirniant, gellir gweled yn mhob un o honynt arwyddion o fwriad a dyfais. Mae yn amlwg eu bod wedi cael eu gwneud yn ol cynllun a fodolai o'u blaen. Ond nid oes un gymdeithas ar wyneb y ddaear ac y gellir dweud am dani, yn ei holl gysylltiadau, ei bod yn byw ac yn bodoli yn ol plan a dynwyd o flaen y gymdeithas ei hun. Pe teflid tynelli o geryg o ben y mynydd i lawr i'r gwastadedd, mae yn bosibl y gallai y ceryg ar ddamwain, ymffurfio yn ogof, neu ystafell, neu

Digitized by Google

yn fath o dy—gyda rhywbeth tebyg i ddrws a ffenestr yn perthyn iddo—ond trefn ddi-drefn fyddai arno, oblegid ar ddamwain y gwnaed ef. Felly yn benaf y ffurfiwyd cymdeithas. Dadblygiad ydyw. Yn y dechrau, pan oedd y bobl yn ychydig mewn nifer, a digon o le iddynt heb gyfyngu y naill ar y llall, nid oedd angen am gyfundrefn helaeth a manwl i'w rheoli, ac yr oedd pob teulu yn gyfraith iddo ei hun. Bob yn dipyn fel y mae golud yn cynyddu, mae rhyw un mewn ardal, yn taflu golwg ddeisyfgar ar olud ei gymydogion, ac yn penderfynu eu meddianu drwy fodd neu drwy drais. Mae yr un hwnw yn ddigon tebyg yn fwy cawraidd ei gorff ac yn fwy cyfrwys a dichellgar na'i gymydogion, ac felly yn cael y llaw uchaf arnynt. Wedi cael y bobl i lawr, mae yn gwneud ei hun yn benaeth. O hyn allan, nid yw y bobl ond caethion i'r penaeth. Y penaeth sydd yn rheoleiddio pob peth. Mae y tir yn perthyn iddo, a rhaid talu iddo am hawl i'w ddefnyddio. O'r cyfoeth a enillir trwy lafur, rhaid rhoi rhan fawr i'r penaeth. Ac os ymosodir ar y penaeth, neu os ymosoda efe ar rhywun arall, mae yn rhaid i'r bobl ymladd drosto ac aberthu eu bywyd i'w gadw ef rhag niwed. Rhywbeth yn debyg i hyn ydoedd dechreuad cymdeithas, ac nid yw y drefn a fodola yn bresenol ddim amgen na dadblygiad o honi.

Yn ail, trefn hunanol ydyw i gorff y bobl. Ei harwyddair ydyw, "Pob un drosto ei hun." Yn awr, pe buasai pawb yn gyfartal o ran maint a grym corfforol, yn gyfartal o ran gallu meddyliol ac addysg, ac yn gyfartal o ran profiad a chyfleusderau, fuasai dim cymaint i'w ddweud yn ei herbyn. Ond yma anghyfartalwch yw y rheol. Mae rhai yn gryf a llawer yn wan. Mae rhai yn iach a llawer yn afiach. Mae rhai yn ddysgedig a llawer yn annysgedig. Mae rhai yn byw yn nghanol cyfleusderau, a llawer heb un cyfleusdra yn eu cyraedd. Mewn amgylchiadau fel hyn, nid yw bywyd a'i bleserau yn ddim amgen nag ymgiprys, lle mae yr oll neu agos yr oll o'r gwobrwyon yn rhwym o fyned i'r cryf a'r

Digitized by Google

dysgedig. Pa obaith sydd i'r gwan vn erbyn y cryf? i'r anllythyrenog yn erbyn y dysgedig? i'r tlawd yn erbyn y cyfoethog? Fel rheol, dim, mewn gwirionedd, dim. Yr unig rai a ffefrir gan y drefn bresenol ydynt y cryf a'r cyfrwys, Nid yw bywyd i'r lluaws ddim amgen na brwydr o'r cryd i'r bedd—ac yn y frwydr am fera beunyddiol, mae miloedd yn cael eu gwthio i'r wal a'u mathru o dan draed i farwolaeth. Mae rhai yn llwyddo—yn casglu arian werth myrddiynau, a'r bobl wirion-ffol yn eu haddoli, oblegid yr aur sydd ganddynt. Ond beth yw llwyddiant yr ychydig pan edrychir arno yn feirniadol? Nid yw ddim amgen nac aflwyddiant miloedd o gydymgeiswyr yn y frwydr am olud. Golyger for mewn ardal, werth mil o bunau o olud yn bosibl i'w enill, a bod yno fil o bersonau i gyd yn ymgeisio am gymaint ag a allant o'r golud—os llwydda un dyn i feddianu pum cant iddo ei hunan, mae yn amlwg na fydd yn aros o'r golud, ond pump cant arall i'w ranu rhwng y mil, ond un, o bersonau. Os oes un dyn yn werth myrddiynau, mae miloedd ar ei gyfer heb fod yn werth dim. Mae yr un dyn yn gyfoethog am fod y lluaws yn dlawd; ac y mae y lluaws yn dlawd am fod yr ychydig yn oludog. Pe rhoddid ei ran gyfiawn i bob un, fyddai ddim yn bosibl i rai fod yn or-oludog; a thra y bydd yn bosibl i rai feddianu myrddiynau, bydd yn anmhosibl i'r lluaws feddianu digon i ddiwallu eu heisiau cyfreithlawn.

I wyr y breintiau a'r golud, mae y drefn bresenol yn gweithio yn ogoneddus. Fe synai Syr Heliwr o Gaerysbail, fod neb yn gallu gweled unrhyw fai ar y drefn bresenol. Rhaid i'w denantiaid ef weithio bob un drosto ei hun a gweithio bob un i Syr Heliwr ar yr un pryd. Pwy sydd yn cadw y gwr mawr o Gaerysbail? Nid yw yn llafurio nac yn nyddu, ac eto ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant yn debyg iddo. Mae yn byw mewn byd da helaethwych beunydd, ac nid oes arno eisiau dim—pwy sydd yn ei gadw? Ei denantiaid a neb arall.

Digitized by Google

Mae yn byw ar ffrwyth llafur yr amaethwyr ac eraill, heb wneud un gwasanaeth iddynt hwy nac i gymdeithas am ei gynaliaeth.

Mae y gwyr mawr yn dweud fod unigoliaeth a chystadleuaeth yn beth da i'r bobl—yn drefn fuddiol i'r lluaws. Ond gwelwch mor ofalus ydynt wedi bod rhag cymwyso y drefn atynt eu hunain. Hyny o drefn sydd yn ffynu, mewn cymdeithas yn awr, mae wedi cael ei sefydlu gan y cyfoethogion, heb ymgynghori ar bobl o gwbl, ac y mae yr holl gyfreithiau ar sefydliadau wedi cael eu trefnu i gydweithio er daioni iddynt eu hunain. Maent wedi cymeryd meddiant o'r tir, heb un hawl ynddo mwy nac eraill, ac ni chaiff neb ei lafurio heb eu cenad hwy a thalu rhent iddynt am y caniatad. Drwy y ddyfais anghyfiawn yma maent wedi sicrhau gwasanaeth eu holl denantiaid i gasglu cyfoeth iddynt eu hunain. Nid ydynt wedi gadael dim i ddamwain. Mae gwaddol y teulu brenhinol wedi ei sefydlu. Mae cyflogau y swyddogion gwladol, y barnwyr, y cyfreithwyr, a'r milwyr, wedi ei sefydlu hefyd. Felly hefyd y mae bywoliaeth yr esgobion a'r offeriadon o bob gradd wedi ei sefydlu, mor bell ac y gellid sefydlu unhryw beth yn mlaen llaw. Mae llywodraethwyr pob gwlad wedi bod yn hynod o ofalus a llwyddianus i wneud eu bywoliaeth eu hunain a'u perthynasau yn sicr a sefydlog.

Yn drydydd trefn anghyfiawn ydyw. Crynswth o anghyfiawnder ydyw y drefn i gyd. Nid personau a feiir, ond y drefn. I raddau pell iawn mae pob un mewn cymdeithas yr hyn ydyw am fod amgylchiadau wedi ei wneud felly. Mewn amgylchiadau gwahanol, buasem i gyd yn wahanol i'r hyn ydym yn awr. Oblegid hyny wrth gyhoeddi fod y drefn yn grynswth o anghyfiawnder, collfarnu y drefn a wneir, ac nid personau. Mae yn anmosibl edrych ar gymdeithas mewn un ran o honi heb ganfod gamwri yn ffynu ar bob llaw. Beth all fod yn fwy anghyfiawn na gorfodi y tlawd i weithio yn fore a hwyr, o wythnos i wythnos, a blwyddyn i flwyddyn, hyd ddydd

Digitized by Google

ei farwolaeth, am gyflog rhy fychan i'w alluogi i ddiwallu yn briodol anghenrheidiau ei natur? Mae y drefn bresenol yn gwneud hyny i ganoedd o filoedd yn ein gwlad. Beth all fod yn fwy anghyfiawn na gorfodi dynion gweithgar diwyd a sobr i fyw mewn cutiau, a gamerwir yn dai, heb ddigon o fwyd, na digon o dan, na digon o ddillad, na digon o ddodrefn, na digon o ddim ag sydd yn angenrheidiol i wneud bywyd yn ddedwydd? Mae y drefn bresenol yn gwneud hyny. Beth all fod yn fwy anghyfiawn na gorfodi plant diniwed i ddioddef newyn, noethni, oerni, afiechyd, budreddi, anwybodaeth, a phob aflendid yn nghanol cyflawnder o gyfoeth? Mae y drefn bresenol yn gwneud hyny. Beth all fod yn fwy anghyfiawn na gorfodi y llafurwyr i weithio yn galed i gynyrchu cyfoeth a'i gasglu, nid iddynt eu hunain, ond i eraill, i gadw segurwyr diles mewn urddas a moethau? Mae y drefn bresenol yn gwneud hyny. Beth all fod yn fwy anghyfiawn na gorfodi y gweithiwr i weithio pum awr o bob deg am ddim i greu golud i ryw un arall? Mae y drefn bresenol yn gwneud hyny. Y neb na weithio na fwytaed chwaith. Dyna gyfiawnder. Ond dan y drefn bresenol, y segurwyr sydd yn bwyta oreu, yn gwisgo oreu, ac yn byw yn y bri ar urddas penaf, tra mae y gweithwyr yn ddigon aml yn haner newynu ynghanol digonedd. Cyhoeddwyd chwedl yn ddiweddar mewn Newyddyr Americanaidd. Wneir dim cam ar chwedl na'i hawdwr drwy gymreigio tipyn arni hi. Ryw wanwyn yn ol ehedodd bran dros fynydd Berwyn i dyffryn Edeyrnion. Wedi chwilio y dyffryn, a gweled ei fod yn hardd ac yn lle dymunol i fyw ynddo, fe benderfynodd wneud ei chartref ar lan y Dyfrdwy yn ardal Llandderfel. Ar un ochr i'r afon fe welodd drefedigaeth o frain wedi sefydlu yn barod, ac er fod yno lawer o brenau heb un nyth ar ei frigyn, fe ddewisodd bren mewn coed ar yr ochr arall i'r afon lle nad oedd un fran, wedi nythu yn flaenorol. Cyn ei bod

wedi gorphen ei nyth, fe ddaeth swyddog ati i'w gwysio o flaen brenhines y brain gerllaw y Pale. Rhoddwyd hi ar ei phrawf ar y cyhuddiad o ddwyn eiddo y brain. Pan ddadleuai nad oedd un fran erioed wedi gwneud nyth yn y pren hwnw, dwedwyd wrthi yn sarug nad oedd hyny o ddim gwahaniaeth am fod brain y Pale wedi cymeryd meddiant o'r holl ddyffryn, ac mai eu heiddo hwy a'u hilogaeth ydoedd dros byth. Dedfrydwyd y fran i farw, neu i fywyd o gaethiwed drwy wasanaethu brain y Pale a gwneud nythod i'w plant a thalu rhent am gael byw yn y nyth oedd hi wedi wneud ei hunan ar yr ochr arall i'r afon. Erbyn hyn yr oedd ar y fran eisiau bwyd; ac fe welodd amaethwr yn aredig mewn cae ger llaw Tanyffordd, a ffwrdd a hi yno i gasglu y pryfaid i ddiwallu ei newyn. Ond mewn munud o amser yr oedd yno ganoedd o frain y Pale a'i hamgylch hi, a phrofwyd hi eilwaith yn lladrones am ei bod hi wedi bwyta rhai o'r pryfaid; oblegid yn ol cyfraith y drefedigaeth, yr oedd holl bryfaid y dyffryn yn eiddo personol i frain y Pale hyd byth. Dedfrydwyd hi i farw; ond cymerodd y frenhines drugaredd arni, a gosododd hi i gasglu pryfaid a'u cario i'r Pale, a'i hunig dal ydoedd yr hyn a welai brain y Pale yn dda i'w roddi iddi. Y fran ddamegol yna ydyw y gweithiwr, y tlawd. Nid all y tlawd prin symud led ei droed, nad oes rhywun yn ei wysio am drespasu. Nid all wneud dim tuag at enill ei fara beunyddiol heb genad gan rywun arall. Mae pob peth o'i amgylch yn eiddo personol i rywun, ac nid all gael dim heb werthu ei ryddid, a cholli ffrwyth ei lafur er ei feddianu. Mae y tlawd yn byw ar ganiatad ac ewyllys da dynion marwol fel ei hunan. Beth mae chwarelwyr Arfon a Meirion yn ei wneud? Y rhan fwyaf o'u hamser maent yn cynyrchu golud, ac fel byddin fawr o gaethweision, yr hyn ydynt yn wirioneddol, maent yn cario y golud i'w meistriaid, ac yn bloeddio hwre pan dderbyniant ran fechan o hono yn ol

dan yr enw cyflog. Beth mae y glowyr, a'r amaethwyr, a'r crefftwyr yn ei wneud? Enill golud i'w meistriaid. Ac y mae llawer o honynt, hwyrach yr oll o honynt y dydd heddyw, yn Nghymru yn tybio eu bod yn cael eu cadw gan eu meistriaid—ond camgymeriad dirfawr ydyw hyny, y gweithwyr sydd yn cadw eu meistriaid. Yn holl gylch gwybodaeth nid oes un ffaith eglurach na bod holl fawrion y byd yn byw ar lafur y gweithwyr, ac nad yw y rhan fwyaf o'u golud yn ddim amgen na ffrwyth llafur heb dalu am dano. Pe derbyniai y llafurwr werth ei lafur, ni byddai y meistr ddimau mewn oes yn gyfoethocach am ei gyflogi. Prif ffynonell golud i'r meistr oddiwrth ei weithwyr, ydyw llafur rhad—llafur heb dalu dim am dano. Wel, mae y drefn sydd yn gwneud pethau fel hyn yn bosibl, yn drefn anghyfiawn, ac ar y drefn y mae y bai yn gorphwys, ac nid ar bersonau a ddygwyd i fynu o dani.

Mae lluaws o bethau eraill ac y gellid eu dwyn i ystyriaeth yn erbyn y drefn anrhefnus bresenol, ond rhaid eu gadael, a symud yn mlaen i wneud ychydig o sylwadau byrion ar yr ail-drefnu, oblegid dyna ydyw y rhan bwysicaf or testun.

Y sylw cyntaf ydyw fod miloedd o wyr doethaf a dysgedicaf y byd yn cydnabod fod rhywbeth mawr allan o le mewn cymdeithas fel y mae, a bod cyfnewidiadau a diwygiadau mawrion yn angenrheidiol cyn y bydd pethau fel y dylent fod. Mae cynhyrfu am gyfnewidiad yn mhob man drwy yr holl fyd gwareiddiedig. Yr ydym ninau fel Cymry yn dechrau ymwingo ychydig ac yn gadael i'r byd wybod ein bod yn teimlo nad yw pob peth yn iawn yn y drefn bresenol, ag y mae y cynhyrfiadau hyn am ddiwygiadau, yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o'n hargyhoeddiad fod eisiau newid y drefn. Y diwygiadau y cynhyrfir am danynt gan y Cymry ydynt y rhai canlynol:—Dadgysylltiad a dadwaddoliad yr Eglwys Wladol; diwygiad yn neddfau y tir; addysg

Digitized by Google

ganolraddol; ac ambell i floedd wan am Reolaeth Gartrefol. Ar y pethau hyn yr wyf yn cutuno, i raddau o leiaf, ar diwygwyr cyffredin. Ond wedi cael yr holl bethau hyn i ymarferiad, yr ymholiad pwysig ydyw—faint gwell allan fydd corph y genedl, nag ydyw yn bresenol? Wrth ymdrin ar pwnc hwn rhaid cofio o hyd mai gweithwyr tlawd sydd yn gwneud i fynu gorph y bobl. Wedi cael y diwygiadau, y ceisir am danynt, ac yr ydym yn rhwym o'u cael, faint cyfoethocach fydd y chwarelwyr, glowyr, crefftwyr, a gweision a morwynion yr amaethwyr? Fydd oriau eu llafur yn llai? eu gwaith yn ysgafnach? eu cyflogau yn uwch? eu hymborth yn well ac yn helaethach? eu gwisgoedd yn well? eu tai yn well? A moddion mwyniant a dedwyddwch yn fwy cyraeddadwy iddynt? Yr wyf yn ateb yn ddibetrus—dim, os yw y diwygiadau i derfynu gyda y rhai hyn. Yn yr Iwerddon, mae yr Eglwys wedi ei dadgysylltu ai dadwaddoli ar degwm weidi ei ddiddymu a deddfau y tir wedi eu diwygio, ond y mae y tlodion yno mor dlawd ac mor luosog ag erioed. Y gwirionedd yw, nid oes un diwygiad a wna les gwirioneddol a pharaol i gorph y bobl heb aildrefnu cymdeithas o'i gwraidd i fynu. Yn y fan yma y mae dechreuad y gwahaniaeth rhwng y cymdeithaswyr a'r diwygwyr cyffredin. Os edrychir ar gymdeithas fel pren a rhai o'i ganghenau yn dwyn ffrwythau gwenwynig a marwol—mae y diwygwyr cyffredin yn meddwl fod tocio tipyn a thori ambell i ganghen ymaith, yn gymaint o ddiwygiad ac sydd eisiau: ond y mae y cymdeithaswyr yn haeru fod y pren mor ddrwg a'i ffrwythau mor wenwynig nad ellir byth ei wella ac y rhaid ei dynu ymaith o'r gwraidd a phlanu pren byw a iach yn ei le. Os edrychir ar gymdeithas fel adeilad—mae y diwygwyr cyffredin yn meddwl fod adgyweirio yr adeilad yn ddigon; ond y mae y cymdeithaswyr yn credu ac yn haeru fod yr adeilad yn rhy gregin i'w hadgyweirio, ac y rhaid adeiladu adeilad newydd cyn y gellir diwallu

Digitized by Google

angenrheidiau yr oes bresenol. Wnaiff trwsio cymdeithas mor tro—rhaid ei chreu o newydd cyn byth y gwelir trefn arni. Ond a ellir aildrefnu cymdeithas? os gellir, pa fodd? Mae yr ateb yn barod—gellir.

Yn gyntaf drwy genedleiddio y tir a'i holl drysorau, y bobl bia y tir a'r holl drysorau yn y tir. Drwy ysbail a gorthrwm y dygwyd ef oddiarnynt. Eiddo lladrad ydyw y tir lle bynag y mae yn eiddo personol i unrhyw unigolyn. Nid oedd gan neb hawl ond hawl yr ysbeiliwr i'w gymeryd na'i werthu na'i brynu. Etifeddiaeth y bobl ydyw y tir, ac i drysorfa y bobl y dylai y rhenti fyned. Wedi cael y rhent i drysorfa y wlad yn lle i logellau unigolion, gellid diddymu pob treth—yr hyn a fyddai yn elw uniongyrchol oddiwrth y tir i bob person yn y wlad.

Yn ail, drwy genedleiddio gweithiau, peirianau, ac offerynau gwaith. Gwneler y chwarelau, y gweithydd glo, y llaw weithfeydd, a holl offerynau gwaith yn eiddo y cyfundeb neu y wladwriaeth, yn lle personau unigol.

Ac yn drydydd drwy genedleiddio yr elw oddiwrth drafnidaeth, ac yn enwedig yr elw dirfawr sydd yn tarddu oddiwrth luosogiad y boblogaeth, yr hwn elw sydd yn awr yn myned i logellau personau unigol, a hyny yn hollol anghyfiawn. Mae hyn yn cael ei wneud yn barod yn y llythyrdy a'r pellebyr. Mae yn cael ei wneud yn Manchester yn y gwaith dwfr a nwy, ac mae yn eithaf possibl gwneud yr un peth a gweithfeydd yr holl wlad.

Ond yn bedwaredd, drwy ddarparu cartref rhydd a sicr i bob teulu yn y wlad-cartef o'r hwn nad ellid troi yr un teulu allan byth yn erbyn eu hewyllys.

Ac yn olaf ar hyn o bryd, drwy wneud addysg yn rhad, rhydd a chenedlaethol, nid addysg uchel-raddol, ganolraddol, ac isel-raddol, oblegid yn y byd newydd fydd dim ond un radd, y bobl; ond yr addysg oreu all y byd ei roddi i'r trigolioni i gyd.

O dan y drefn newydd o gymdeithas, fe fydd miloedd

Digitized by Google

o bethau yn bosibl nad yw y byd hyd yma erioed wedi breuddwydio eu bod yn bosibl.

O dan y drefn newydd fe dderfydd tlodi o'r tir. Nid oes achos fod neb yn dlawd. Mae goruchafiaeth dyn ar natur a'i allu i luosogi cyfoeth mor ehelaeth fel y mae yn gallu cynyrchu mwy na digon i ddiwallu pob anghen. Gyda y tlodion fe dderfydd y troseddwyr i raddau pell o leiaf. Troseddau yn erbyn eiddo ydynt y mwyafrif o'r rhai a gyflawnir. Tlodi ar y naill law a thrythyllwch segurwyr goludog ar y llaw arall, ydyw yr achos fod cynifer o ferched ein gwlad yn gwerthu eu hunain, i gael modd i fyw. Fe dderfydd y ffieidd-dra yna o dan y drefn newydd.

Bydd oriau llafur yn llai ac oriau hamddenol pob un yn fwy. Ychydig oriau yn y dydd fyddant yn ddigon i gynyrchu pob peth fydd yn angenrheidiol, pan orfodir pawb i wneud eu rhan o'r gwaith angenrheidiol i'w wneud. Fydd dim lle i segurwyr yn y drefn newydd, oblegid bydd raid i bob un wneud rhyw wasanaeth defnyddiol yn gydnabyddiaeth am ei gynaliaeth. Gwneir ffordd a'r ofnau, yr amheuon ar pryder am y dyfodol ag sydd yn chwerwi bywyd yn y presenol. Bydd pob un yn gwybod, beth bynag a ddigwydd iddynt hwy, y gofelir am y wraig a'r plant. Fe fydd cymdeithas yn dad ac yn fam i ofalu am yr anddifad, nes byddant yn alluog i ofalu am danynt eu hunain. Bydd pawb ar dir cyfartal o ran manteision a chyfleusderau i enill bywoliaeth. Fydd raid i neb grefu ai gap yn ei law ar ei gyd-ddyn, am ddiwrnod o waith i'w gadw yn fyw. Bydd eu perthynas a'u gilydd yn wahanol. Nid morwyn a mistress, a gwas a meistr fyddant y pryd hyny, ond brodyr a chwiorydd o'r un frawdoliaeth—aelodau o'r un gymdeithas. Pryd hyny fydd ddim yn bosibl i'r naill ddyn brynu a gwerthu ei gyd-ddyn i wneud elw o hono, fel y gwneir yn awr. Os yw dyn heb ddim ond ei lafur i'w werthu neu ei gyfnewid, ac yn gorfod ei werthu i

Digitized by Google

gael modd i fyw, mae yr hwn sydd yn prynu ei lafur yn prynu ei gorph. a'i ryddid, a'i fywyd yr un pryd. O bosibl fod gwisg rhyddid am dano, ond o dan y wisg mae llyffetheiriau caethiwed wedi eu cylymu mor sicr ag erioed. Arwyddair y drefn bresenol ydyw, "Lles y mwyafrif." Arwyddair y drefn newydd ydyw, "Lles pawb." Rheol y drefn bresenol ydyw, "Pob un drosto ei hun;" rheol y drefn newydd ydyw, "Pob un i bawb a phawb i bob un."

Yn sicr mae y pethau hyn yn ddymunol ynddynt eu hunain. Maent i gyd yn werth i'w cael, yn werth ceisio am danynt, yn werth cynhyrfu y byd ac aberthu llawer i'w dwyn oddi amgylch. Ac y maent yn bethau y gellir eu cael—maent yn gyraeddadwy. Mae rhwystrau ar y ffordd, ond pethau i'w goresgyn ydynt.. Fe fydd yr orsedd, a'r bendefigaeth, a'r cyfoethogion, a'r barnwyr, a'r cyfreithwyr, a'r esgobion, a'r offeiriaid ynghyd au holl gynffonau, yn ein herbyn; ond beth ydynt o'u cymharu ar bobl? Trech gwlad nac arglwydd. Mae hyny wedi cael ei brofi lawer gwaith yn barod, ac fei profir eto. Ond i ni gael y bobl gyda ni, fydd ein gwrthwynebwyr i gyd, o flaen y bobl yn ddim amgen, nac us yr hwn a chwal y gwynt ymaith.

Yr hyn sydd eisiau yn awr ydyw deffro y bobl i deimlad o'u dyledswydd tuag atynt eu hunain. Mae y gallu ganddynt yn y bleidlais ar tugel, ac os na lwyddant, arnynt hwy y bydd y bai. Mae cenadwri cymdeithasiaeth yn cael ei chyhoeddi iddynt —cenadwri o obaith, o heddwch, o gariad, o gyfiawnder, o helaethrwydd, ac o ddeddwyddwch yn y byd presenol yn yr hwn y maent yn byw. Mae rhai pobl yn dysgu mai dyffryn galar ydyw y byd hwn, ac felly mae i rai, ond nid i bawb. I'r pendefigion, yr uwchraddolion a'r offeiriaid o bob enw, mae yn fyd o ddedwyddwch a gogoniant; ond i'r tlawd dyffryn galar a dagrau ydyw mewn gwirionedd. Ond mae cymdeithasiaeth yn dangos

Digitized by Google

ffordd i'w wneud yn fyd o lawnder a dedwyddwch i bawb—mewn gair, i wneud yr holl ddaear yn nefoedd bresenol i'r holl drigolion.

Ond cyn y ceir hyny, rhaid cael goleuni addysg, i dywynu ar lygaid y bobl, fel y gwelont ac y teimlont eu sefyllfa, nes eu gyru i chwilio am drefn well. Mae trefn well yn eu hymyl ac yn gyraeddadwy iddynt, er nad ydynt yn ei gweled hyd yn hyn. Maent wedi byw mewn caethiwed mor hir nes y maent, lawer o honynt o leiaf, yn barod i ymladd dros y drefn sydd yn eu llethu, bron i farwolaeth. Nid oes un rheswm arall dros fod gweithwyr yn edrych yn elyniaethus ar Sosialism, yr hwn air o'i gyfiethu ydyw cymdeithasiaeth. Prin y gellir rhyfeddu fod y lluaws yn derbyn cenadwri cymdeithasiaeth mor oer a digyffro, pan gofir eu bod wedi cael eu dysgu o'r cryd i fynu, i fod yn foddlawn ar bethau fel y maent. Ond y mae dipyn yn syn fod Cristonogion, yn y cyffredin, yn wrthwynebol i Sosialism, pan gofir fod llawer iawn o hono yn y bibl. "Gwerth yr hyn oll sydd genyt a dyro i'r tlodion." "Y mae yn haws i gamel fyned drwy grai y nodwydd, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw." "Ar rhai a gredent oll oeddynt yn yr un man, a phob peth ganddynt yn gyffredin; a hwy a werthasant eu meddianu a'u da, ac a'u rhanasant i bawb, fel yr oedd eisiau ar neb." "Y neb na weithio na fwytaed chwaith." "A'r goludog hefyd a fu farw ac a gladdwyd, ac yn uffern efe a gododd ei olwg, ac efe mewn poenau." "Gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch." Gellid ychwanegu llawer at y rhai yna o'r hen destament a'r newydd, ond fe wasanaetha y rhai yna y tro fel engreifftiau. Yn sicr, dylai pobl sydd yn proffesu crediniaeth yn y bibl fel llyfr dwyfol, roddi mwy a gwell sylw i'r egwyddorion a ddysgir gan gymdeithaswyr nac a roddant yn bresenol.

Ond gydag addysg mae yn rhaid cael undeb o holl weithwyr y wlad i ddwyn y cyfnewidiad oddiamgylch.

Digitized by Google

Undeb a dysgyblaeth milwyr Rhufain a'u galluogodd i orchfygu y byd. Drwy undeb y mae y cyfoethogion wedi cael meddiant o'r tir a'i drysorau. Drwy undeb y maent yn cadw y lluaws di-drefn mewn caethiwed ac yn eu hysbeilio o ffrwyth eu llafur. A diffyg undeb, trefn, a dysgyblaeth, ydyw yr unig achos gwirioneddol fod y bobl yn gorfod byw yn y fath drueni. Sefydler cyngrair y gweithwyr. Ofer ydyw disgwyl i'r uchel radd a'r canol radd, gychwyn na chefnogi, unrhyw symudiad a fydd o les gwirioneddol a pharaol i'r gweithwyr. Rhaid i'r gweithwyr gymeryd eu hachos eu hunain o dan eu gofal eu hunain, neu fod byth yn gaethweision fel ag y maent yn awr. Rhaid iddynt gael dynion o'u plith eu hunain i'w cynrychioli yn y cynghorau ac yn y senedd. Mae yn anmhosibl i gyfreithwyr ac arglwyddi tir a'r cyffelyb, wneud cyfiawnder a'r bobl, pe ceisent. Mae eu hunan les ar eu ffordd. Ac y mae hunan les yn sicr o gadw yr uchel radd yn rhengau gelynion y bobl. Ond ni ddylai hyny ddigaloni neb. Unwaith y daw y bobl yn ymwybodol o'u nerth—unwaith y codant ar eu traed, ac y safant i fynu ysgwydd wrth ysgwydd, llaw mewn llaw, fel un gwr, mewn undeb a'u gilydd, fe fyddant mewn ystyr gymdeithasol, yn hollalluog, ac nid oes dim ac sydd yn bosibl nad allant ei feddianu.

Digitized by Google

## POB UN I BAWB—PAWB I BOB UN.

Pob un i bawb a phawb i bob un
Wnai nefoedd o garchar y ddaear i ddyn;
Diddymai dylodi, alltudiai bob drwg
A llanwai y gwledydd â hedd yn lle gwg.

Pob un i bawb a phawb i bob un,
Wnai goryn yn gawraidd a baban yn ddyn—
Gwaddolai y gwanaf a nerth yr holl hil
A gwnai yr eiddilaf yn gryfach na mil.

Pob un i bawb a phawb i bob un,
Wnai bob un yn foethus a threfnus ei lun;
Gwnai fil yn foneddwyr, uchelwyr o fri,
Yn mhob cymydogaeth, yn lle dau neu dri.

Pob un i bawb a phawb i bob un
Wnai dai gwirioneddol, prydweddol eu llun,
I bob tenlu dedwydd ar hyd yr holl wlad,
Yn lle y cabanau sydd heddyw'n sarhad.

Pob un i bawb a phawb i bob un
Wnai addysg yn waddol cyffredin i ddyn;
Ceid amser i ddysgu a phryd i fwynhau,
A digon o bleser heb neb i'w nacau.

Pob un i bawb a phawb i bob un
Wnai wlad o drigolion yn deulu cytun,
Heb aelod mewn blinder, o febyd i fedd,
Na swyddog yn eisieu i'w cadw mewn hedd.

Pob un i bawb a phawb i bob un
Newidiai gymeriad dynoliaeth ei hun;
Cynyrchai ddigonedd a gweddill heblaw.
Yn olud cynyddol i'r oesau a ddaw.

Pob un i bawb a phawb i bob un
Wnai nefoedd o garchar y ddaear i ddyn;
Frythoniaid ymunwch, ymgodwch i'r gad,
Gorchfygwcb y gelyn, meddianwch y wlad!

R. J. Derfel.

BRIT. MUSEUM 14 JY 90

Digitized by Google

# R. J. DERFEL, Manceinion.

GAN IWAN JENKYN, F.R.H.S., BETHESDA.

*Allan o'r Celt am Chwefror 24, 1888.*



Ugain mlynedd yn ol, nid oedd neb yn fwy adnabyddus yn y byd Cymreig na gwrthddrych ein hysgrif. Ei drigfod yn nghanol berw Manchester, yn nghyd ac amryfal alwadau ei fasnach, ac nid y rhithyn lleiaf o leihad yn ei wladgarwch, ydynt yr unig resymau dros ei ymneillduad o'n plith. Ond fel y cawn weled yn ol llaw hwyrach ddarfod i oerfelgarwch Cymry Manceinion tuag ato effeithio ar ei deimladau--ond nid amharodd, ac nis gallai amharu dim ar ei wladgarwch trwyadl. Yn y newyddiaduron Cymreig, gwelir, nid yn anfynych, gynyrchion ei awen. Yr engraifft ddiweddaraf oedd ei englynion coffadwriaethol i'w hen

BRITISH MUSEUM

Digitized by Google

gyfaill, y diweddar Idris Fychan. Mewn gwlad estronol, yn nghanol helyntion bywyd, anmhosibl ydyw i neb—hyd yn oed i wladgarwr aiddgar o ddelw R. J. Derfel—dalu cymaint ag a ddymunai o sylw i anghenion ac iawnderau ei genedl. Yn ol arfer y Cymry oddicartref, sef tynu at eu gilydd, daeth yr ysgrifenydd—pan yn pabellu yn swydd Caerhirfryn i gyffyrddiad mynych ag awdwr anfarwol "Brad y Llyfrau Gleision," ond eto teimlaf fy annghymwysder o ran oed a medr i wneud cyfiawnder a'r Cymro talentog hwn. Ar gais y golygydd, modd bynag, gwnaf a allwyf.

Ganwyd R. J. Derfel yn y Foty, ger Llandderfel, ar y 24ain o Orphenaf, 1824. Ail fab ydoedd i Edward Jones, Tanyffordd, yr hwn ydoedd un o sylfaenwyr yr achos Anibynol yno, a diacon parchus yn yr eglwys hyd ddydd ei farwolaeth.

Yr unig ysgol a gafodd R. J. Derfel oedd yr Ysgol Sul ac ysgol yr aelwyd! Yr oedd ei fam—fel mam y cenedlgarol Ieuan Gwynedd—yn "Atheniad yn wir"—yn un oedd yn sychedu am wybodaeth ac yn hoffi darllen yn fawr. Dysgodd ei phlant i gyd pan yn bur ieuainc i ddarllen iaith eu gwlad. Ac yn bump oed, medrai R. J. Derfel ddarllen yn rhwydd a llithrig. Ar ol iddo gyraedd ei ddeng mlwydd diangodd oddicartref. Ryw nos Sul, ar ol bod yn y capel, yn lle dychwelyd gartref, cyfeiriodd ei gamrau tua Llandrillo, heb ddyweud gair wrth neb. A boreu dydd Llun, cyn fod neb wedi codi, yr oedd yn Llangollen; a chyn haner dydd cyrhaeddodd dy ei ewythr, Jonah Roberts, yn Nghefnmawr. Arosodd yno ryw ddwy flynedd. Ystyrid ei ewythr, Jonah Roberts, yn dipyn o brydydd; ac i hyn, mae yn fwy na thebyg, y dylid tadogi dechreuad yr ysfa farddonol yn R. J. Derfel. O leiaf, pan yn byw gyda ei ewythr y dechreuodd farddoni.

O'r Cefnmawr symudodd i Llangollen, lle y trigianodd amryw flynyddoedd. Pan oddeutu un ar hugain oed aeth i L'erpwl: ac oddi yno drachefn, yn mhen ychydig wythnosau, i Manceinion. Y pryd hyn nis gallasai siarad gair o Seisneg. Yn y dyddiau hyny, fel yn bresenol, isel iawn oedd masnach, a phrinach fyth oedd gwaith. Wedi aros yn Manceinion ryw ddwy flynedd, a myned allan o waith, aeth i Lundain, lle yr arosodd yn nghylch blwyddyn o amser—a llawer o'r amser hwnw allan o waith. Symudodd o Lundain i L'erpwl; ac oddiyno yn ol i Manchester, lle mae wedi aros hyd y dydd hwn. Yma eto, bu ysbaid faith allan o waith. O'r diwedd cafodd le fel *paciwr* gan y Meistri J. F. a H. Roberts,

Digitized by Google

marsiandwyr o Gymry. Mewn amser, fel cydnabyddiaeth o'i ymroddiad difefl i'w waith, dyrchafwyd ef i'r swydd o *werthwr*. A chyn bo hir iawn ar ol hyn, penodwyd ef yn Deithydd drostynt, yn yr hon swydd y gwasanaethodd y Meistri Roberts am ryw ddeuddeng mlynedd. Yn y flwyddyn 1865, rhoddodd ei le fel teithydd masnachol i fynu Yr oedd wedi llwyr flino ar deithio, ac yn teimlo awydd cryf am fwy o amser gyda'i deulu; a rhagor o hamdden i ddarllen, efrydu, a chyfansoddi.

Yn gydmar bywyd, dewisodd un o "ferched ei wlad," boneddiges o Ruthyn. Bu iddynt deulu lluosog. Carem alw sylw arbenig ein darllenwyr at yr enwau a roddwyd i blant R. J. Derfel. Efallai fod mwy yn hyn, nag a feddylir. Dyma hwy: Caswallon, Arthur, Rhiwallon, Meirion, Ceridwen, Enid,. &c. Teimlai yn gryf fod ar y Cymry angen mwy o *enwau* nac oedd ganddynt. Ysgrifenodd lawer o lythyrau i'r *Amserau*, yn anog y beirdd ac eraill i fabwysiadu enwau newyddion er mwyn cael ychydig o amrywiaeth. Y fath iechydwriaeth enfawr fuasai cael gwared bythol ar yr enwau Iuddewig a thramorol o'n plith! Y fath gaffaeliad fuasai mabwysiadu enwau ein godidog ddewrion dadau a mamau—yn lle y David, Zechariah, Jemima Maria a Georgina Jane!

Hyn, yn benaf a barodd iddo fabwysiadu "Derfel" yn enw teuluol, ac nid yn ffugenw yn unig, yn ol arfer beirdd ei wlad. Cofrestrwyd y plant yn "Derfel." Dyna yw eu cyfenw. Fel Mr. Derfel yr adnabyddir y bardd gan ei gwsmeriaid, a'i weithwyr. A digrifol ydyw gwrando ar rai tramoriaid yn ceisio ynganu y gair! Byddai yn eithaf peth i lawer eraill o Gymry efelychu R. J. Derfel yn hyn o beth. Cyhoeddwr, argraffydd, llyfrwerthydd, ydyw R. J. Derfel, ac ymwel ei deithwyr a phob parth o'r wlad. Gyda llaw ai diangenrhaid deongli R. J. Derfel: ei ystyr ydyw Robert Jones Derfel.

Dechreuodd R J. Derfel farddoni o ddifrif tua'r flwyddyn 1852. Y llyfryn cyntaf a gyhoeddodd ydoedd "Rhosyn Meirion," yr hwn a gynwysai, yn mysg darnau eraill, bryddest fuddugol ar y gwladgarwr dihafal "Kossuth." Gwedi hyny gwnaeth "Y Bardd Cristionogol" ei ymddangosiad. Dilynwyd y rhai hyn gan "Brad y llyfrau gleision," "Caneuon Min y Ffordd," "Munudau Segur," "Caneuon gwladgarol Cymru," "Traethodau ac areithiau," "Geiriau Moliant," "Cantawd Llys Arthur," a

Digitized by Google

"Songs for Welshmen." Dywedasom iddo ddechreu barddoni o ddifrif yn 1852—pan yn wyth ar hugain oed Yn y flwyddyn 1854 cyhoeddwyd "Brad y Llyfrau Gleision." Cofus gan genedlgarwyr am yr adeg fythgofiadwy hono pryd yr anfonwyd y "Tri ysbiwyr o Saeson" i regu cenedl y Cymry! Suddodd anwireddau cableddus y "tri ysbiwyr--yn cael eu dyfal gynorthwyo gan barsoniaid yr egwlys Seisnig yn Nghymru—yn ddwfn i enaid y bardd ieuanc. O fel yr ymladdodd y gwladgar Ieuan Gwynedd hefyd oddiar ei glaf wely yn erbyn y gethern ysgymun hon! Eto i gyd, credwn i'r adroddiad celwyddog hwn roddi bodolaeth i'r prudd-chwareu mwyaf deifiol ac arddunol yn ein hiaith—"Brad y Llyfrau Gleision." Wyth ar hugain oed oedd R. J. Derfel pan gyflawnodd y gorchestwaith hwn. Ymddangosai darn bob wythnos yn yr *Amserau*, a gyhoeddid y pryd hwnw yn Le'rpwl, o dan olygiad yr Hybarch Wilym Hiraethog. Dienw oeddynt; a mawr ddyfalid pwy oedd yr awdwr. Ond ni wyddai neb—hyd yn oed ei gyfeillion mynwesol Creuddynfab a Cheiriog—mai efe oedd yr ysgrifenydd. Gwnaeth Derfel hyn yn benaf, er mwyn cael clywed barn ddiduedd ar y gwaith, ac nid mwynhad bychan gafodd yr awdwr pan dadogid y gwaith i oreugwyr y genedl y naill ar ol y naill!

Dyfod allan yr oedd y gwaith, a'r ystorm yn codi. Gwyr y Llan ac eraill yn bygwth cyfraith ar gyhoeddwyr yr *Amserau*— rhai o'r diwedd a ddychrynwyd, ac ni argraffent linell yn ychwaneg. Parodd hyn i R. J. Derfel gyhoeddi "Brad y Llyfrau Gleision" yn llyfr, a beiddio y dynionach a fuont mor barod i warthruddo Cymru. Ni bu neb yn ddigon ynfyd i roddi cyfraith ar R. J. Derfel am ei ddynoethiad diarbed o gastiau maleisddrwg yr ysbiwyr a'u cyfeillion. Mae arnaf flys dodi rhai dyfyniadau o "Frad y Llyfrau Gleision" gerbron y Celtiaid. Myner a darllener ef.

GYTHRAUL (yn anerch ei frodyr).

"Nid allwn byth gael cynllun tebyg iddo,  
Gan hyny awn ar frys i'w cynorthwyo;  
Cynhyrfwn yr ysbiwyr i gamchwilio,  
A'n brodyr a parsoniaid i gamdystio;  
A gwnawn fath ddarlun hagr o'r Dywysogaeth  
Nes bydd yn angeu sicr i Anghydffurfiaeth."

Digitized by Google

ATHR. EDWARDS (yn anerch ei frodyr).

" Nid ydych ddim heb achos o'ch amheuaeth,
A sail i ofni twyll yr offeiriadaeth;
Ac o bob twyll y sydd, twyll offeiriadol
Sy fwyaf erchyll waeog ac uffernol;
Gochelwch rhagddynt—gwyliwch ar eu camrau
Mae ysbryd Satan yn eu symudiadau.
* * * * * * * * * *
O Dduw! pa hyd y pery twyll i ffynu?
Pa bryd y peidir llunio drwg i Gymru?"

ANIB. DAVIES:

"Fy ngwlad, fy ngwlad, pa bryd y daw yr amser,
Yr adeg hoff, pan wneir i ti gyfiawnder?
Er cyn dechreuad oesau cred, ni chefaist
Gan estronwyr, ond gwawd a thrais, na haeddaist!'

LLEWELYN Y BARDD:

"Clyw Gymru, a llama,—mae Duw yn cyhoeddi
Fod pobpeth yn gweithio yn nghyd er daioni."

IEUAN GYWIR:

"Gwae fydd i chwi, os dangos wnewch bleidgarwch,
Fe ddaw eich twyll yn ol mewn dull na hoffwch."

Diameu y bydd y personau uchod yn adnabyddus i'r cyfarwydd yn hanes "Brad y Llyfrau Gleision." Rhoddwn yn awr engraifft neu ddwy o ganeuon Derfel.

"Gwisgwch y cenin gwyrdd i gyd,
Frythoniaid, ddydd Gwyl Dewi;
Nis gall y cenin fod yn fud,
Os gall rhyw Gymro dewi."

Eto:

"Arbed, arbed, Gymro tyner,
Olion hen yr oesau gynt;
Rhai arbedodd treuliol amser,
Mynych wlaw a 'stormus wynt;

Cymer ofal, rhag eu dryllio,
  Cysegredig y'nt i gyd;
Ysbryd cryf rhyw ddewrfryd Gymro
  Hofian uwch eu pen o hyd."

Eto:

"Mae helynt mawr mewn ambell fan
  Am godi capel Saesneg;
Mae mwy na digon yn y Llan
  Ac felly rhaid cael 'chwaneg;
A dyma fel y dywedant hwy—
  Mae Smith yn haner angel,
A rhag ei fyn'd i Lan y plwy'
  Cyfodwn iddo gapel."

Mae llawer o ganeuon R. J. Derfel, megys "Yr Alarch," wedi cael eu ymbriodi a cherddoriaeth. "Llys Arthur" sydd gantawd ragorol o waith y diweddar gerddor medrus J. D. Jones, Rhuthyn.

Nid llawer a ysgrifenodd R. J. Derfel mewn cystadleuaeth, ond bu yn dra llwyddianus yn yr ychydig wnaeth. Ei gynyg cyntaf oedd pryddest ar "Kossuth"—a bu yn fuddugol. Ar ol hyn ysgrifenodd i Eisteddfod Bethesda ar "Y Cymdeithasau Llenyddol," ac enillodd y wobr. Ceir y traethawd yn mhlith y "Traethodau ac Areithiau" argraffedig. Yn Eisteddfod Ffestiniog, ymgystadleuodd ar "Ddiwylliad y Meddwl," a daeth yn fuddugol, er fod rhai o oreugwyr y genedl yn gydymgeiswyr ag ef. Cyhoeddwyd y traethawd yn llyfryn dan yr enw "Blaenffrwyth Ardudwy" Enillodd hefyd ar "Ieuan Glan Geirionydd" yn Eisteddfod Dinbych. Hon oedd y gystadleuaeth olaf y bu ynddi. Perthyn tipyn o hanes i'r gystadleuaeth hono, ond y mae yn rhy gwmpasog i'w ysgrifenu yma.

Yn 1865, yr oedd Manchester heb yr un siop lyfrau Cymraeg. Felly, ar ol ei ymddiswyddiad oddiwrth y Meistri Roberts, meddyliodd R. J. Derfel, ond agor un, fod digon o Gymry yn y ddinas i wneyd siop Gymraeg yn llwyddianus. Suddodd ei gyfalaf—ffrwyth cynildeb blynyddoedd—mewn llyfrau a nwyddau ar gyfer Cymry y ddinas. Ond suddiad andwyol a dinystriol y trodd allan. Ni chafodd y gefnogaeth leiaf gan ei gydgenedl. Fuasai waeth iddo mor llawer daflu ei arian i'r mor. Mewn

Digitized by Google

canlyniad, wedi pasio canol oed, gorfodwyd ef, mewn ystyr, i ail ddechreu byw; a bywyd o ymdrech ydyw wedi bod byth ar ol hyny.

Nid R. J. Derfel yw y Cymro cyntaf archollwyd gan anniolchgarwch ei gydgenedl. Gwaedodd llawer calon oherwydd y gwendid cenedlaethol hwn. Gallasem enwi aml un; ond ymataliwn. Fel mater o ffaith nid ydyw gwladgarwch pur a hunanaberthol wedi "talu" yn y byd hwn. Credwyf na wna ychwaith. Mewn ystyr fydol nis gall. Ond nid ffrwyth tal ydyw gwladgarwyr. Cariad, greddf, cydymdeimlad trwyadl a'r gormesedig, ac atgasedd llwyr tuag at y gorthrymwyr, yn unig a'u cynyrchant. Eu taledigaeth ydyw—teimlo eu bod wedi cyflawni eu dyledswydd tuag at eu gwlad.

Nid yw R. J. Derfel yn beio neb am y methiant a'i cyfarfyddodd—ond eidddyf iddo dderbyn briw nad yw wedi gwella hyd y dydd hwn. Mawr a chwerw oedd ei siomedigaeth; yn lle ychwaneg o hamdden. cafodd lai! Diflanodd barddoniaeth! Ac erbyn hyn mae gofalon y byd a phryder masnachol wedi agos a llethu bob yni meddyliol. Feallai nad oes neb i'w feio ond efe ei hun; oblegid yr oedd wedi meddwi ar wladgarwch a chenedlgarwch! Dallwyd ef i oleuni synwyr cyffredin! Ond os dallwyd ef — mae mewn cwmpeini gwir anrhydeddus! Perthyn goreuon y ddaear i'r dosbarth dall anfarwol hwn! Bid a fyno am hyny, tywyllodd y methiant a'i cyfarfyddodd fwy nag ugain mlynedd o'i oes. Ac mewn canlyniad chwilfriwyd llawer o gynlluniau a gobeithion disglaer.

Yn y blynyddoedd tywyll hyn ychydig iawn a gyfansoddodd—a'r ychydig hyny gan mwyaf yn Saesneg. Flynyddoedd yn ol, cyhoeddodd gyfrol fechan yn dwyn yr enw "Hymns and Songs for the Church of Man" gan "Munullog." Ymddangosodd adolygiadau ffafriol arni mewn llawer o'r prif newyddiaduron Saesneg. Arwain y gyfrol hon ni yn naturiol at y cyfnewidiad mawr mewn golygiadau duwinyddol a gymerodd le yn meddwl y bardd. Yn barod i'r wasg, yr oedd ganddo gyfrol o bregethau Cymraeg. Bwriadai eu cyhoeddi yn llyfr gwerth 3s 6c. Derbyniasai enwau tanysgrifwyr am dros 600 o gopiau. Ond cyn eu rhoddi yn nwylaw yr argraffydd, daeth cyfnewidiad mawr ar olygiadau yr awdwr ar lawer o'r pynciau y traethid arnynt yn y

Digitized by Google

pregethau. Ac oherwydd hyny ni chyhoeddwyd y gyfrol byth. Ond gan nad amcan yr ysgrifau hyn ydyw croniclo pethau o'r fath, ni ymhelaethwn ar y pen hwn.

Hefyd, rhaid gadael allan hanes y pregethu, y darlithio, a'u cysylltiadau hyd ryw adeg fwy cyfleus. Ond, gellir dweud i R. J. Derfel weithredu fel pregethwr poblogaidd gyda y Bedyddwyr am flynyddoedd lawer. Traddododd ddarlithiau hyawdl ar hyd a lled y wlad.

Yn ei holl lafur—fel bardd, traethodwr, darlithydd, a masnachydd—un meddwl ac amcan oedd ganddo, sef yw hyny, deffro y Cymry i deimlo ei cenedlaetholdeb.

Yr oedd yn ddig wrth ei genedl am ei bod mor wasaidd a llwfr. Mynai i bob Cymro a Chymraes ddal eu penau i fyny--fel Cymry. Cenfydd y cyfarwydd yn ei weithiau—rhyw ddeuddeg o gyfrolau mewn nifer—fod agos yr oll o honynt yn dwyn cysylltiad arbenig a'r un drychfeddwl hwn. Drych cywir o deimladau a golygiadau R. J. Derfel ydyw ei weithiau. Cymro, Cymru, a Chymraeg—dyna ei Alpha a'i Omega.

Yn awr, fel cynt, carai R. J. Derfel i'r Cymry honi eu cenedlaetholdeb. Dyry y deffroad cenedlaethol presenol brawfion diymwad fod y Cymry *yn honi* eu cenedlaetholdeb! Galwant yn uchel—a y llais yn gryfach ac yn fwy cyffredinol—am Ymreolaeth. Na laeser dwylaw hyd oni orchfyger y trahausder tramorol. Dadleua R. J. Derfel yn wresog am gyfundrefn addysgawl i Gymru, fel na byddo raid i Gymro byth ostwng pen na gwrido, oblegid anfanteision ei wlad yn y pethau hyn. Effro ydyw Cymru ar y mater hwn eto. Peth da, yn meddwl R. J. Derfel, fyddai cael un iaith a ddeallid gan bawb o bobl y byd. Hyd nes y ceir hono, Saesneg yn ddiau yw yr iaith fwyaf angenrheidiol i'w dysgu o'r holl ieithoedd tramorol. Ond na esgeuluser, na ddirmyger yr iaith Gymraeg. Dyledswydd pob Cymro a Chymraes ydyw gofalu fod eu plant yn medru yr hen iaith. Yn ddilys ddiameu, carnfradwr ydyw y neb a ddirmygo ac a esgeuluso iaith ei wlad.

Mae amryw, yn ddiweddar, wedi ysgrifenu ato i ddyweud eu bod hwy yn priodoli eu deffroad cenedlaethol i ddarllen gweithiau R. J. Derfel. Dyma ran o dal y gwir wladgarwr: cael ei gyd-

Digitized by Google

nabed fel un o'r amryfal achosion ag sydd yn cychwyn ac yn cynorthwyo cenedl o gaethiwed i ryddid. Teimla R. J. Derfel y dyddordeb dyfnaf yn y deffroad cenedlaethol. Ystyria ef yn arwydd er mawr ddaioni. Ond i wneud y symudiad yn wir fendith i'r genedl yn gyffredinol, dylid eangu llawer ar ei amcanion. Yn ei dyb ef dylid ail-drefnu cymdeithas o'r gwaelod, cyn y gellir ei gosod ar sylfeini sefydlog a pharhaus. Dylid gwneud i ffwrdd a thlodi. Y ffordd i hyny ydyw gwneud un frawdoliaeth o'r genedl—neu gyfundeb o amryw frawdoliaethau. Dyledswydd y genedl ydyw gweithredu ar yr egwyddor gynwysedig yn y geiriau a ganlyn, sef, "Pob un i bawb, a phawb i bob un!" Carai R. J. Derfel weled pawb yn trigo yn nghyd fel brodyr—fel cymmrodorion. Dymunol dros ben fuasai hyny hefyd.

Ond rhaid terfynu. Diameu fod R. J. Derfel yn un o'r gwladgarwyr—yn un o'r cenedlgarwyr puraf a welodd ein cenedl ni erioed. Wrth osod ein pin o'r neilldu, eiddunwn iddo "oes faith;" boed i ddyheadau ei ysbryd Cymreig gael eu sylweddoli. Ymryddhaed Cymru oddiwrth waseidd-dra. Syrthied ei gefynau ymaith.

Flynyddoedd yn ol, ysgrifenodd y bardd feddargraff iddo ei hun, a chan ei fod yn ddarluniad cywir o hono, dodwn ef yma:—

BEDDARGRAFF R. J. DERFEL.

"Carodd ei genedl, curiodd i'w gweini;
I gyraedd ei henaid gwariodd yni;
Teimlodd yn dost a dadleuodd drosti—
Teimlodd a chanodd mewn hedd a chyni;
Ei ebwch a'i waedd a baich ei weddi
Oedd am wr yn iachawdwr i'w chodi
O lid brad, i glod a bri—a mawredd;
Iawn a gwirionedd yn goron iddi."

Digitized by Google

## Y SEREN UNIG.

Seren unig—seren dlos,
Addurn wyt i'r dywell nos,
Unig ar dy ben dy hun—
Denol yw dy landeg lun ;
Er i ser sydd fwy na thi
Gilio draw, a'n gadael ni,
Dal i oleu wnei o hyd—
Dal i wenu ar y byd :
Dysg i minau, seren dlos,
Ganu yn y dywell nos.

## Y GWLITHYN.

WLITHYN gloyw—wlithyn bychan,
  Blentyn tlws y wawr a'r nos ;
Harddach wyt na thlws o arian,
  Dan yr haul, ar fron y rhos ;
O nad allet ymddysgleirio
  Ar y rhosyn bach o hyd,
Ond yr haul a fyn dy gario
  Adref i addurno'i bryd :
Ond cyn myned, dysg i mi
  Ymddysgleirio, ac addurno
Oriau 'mywyd, fel tydi.

## YR ALARCH.

Brenin y llyn yw'r alarch gwyn,
  Mae'n harddu'r dwfr o dano ;
Nid oes yr un mor hardd ei lun,
  Pan ar y llyn yn nofio.
Nofia'n gry' ar y gloyw li',
  Gan edrych ar ei ddelw,
Yn falch o'i hun, wrth wel'd ei lun
  Yn nrych y dyfroedd gloyw :
      Felly dyn,
      Wrth wel'd ei lun
    Yn nrych ei fywyd gwyn,
      All lawenhau,
      Ac ymfawrhau,
    Fel alarch ar y llyn.

Digitized by Google

## MACHLUD HAUL.

GWYRA'R haul ei ben i gysgu,
Gwrida wrth gusanu'r nos;
Cwyd y ser i wylio'i wely,
Gyda'r Lloe'r, eu banon dlos;
Dan ymwrido yn ei wyneb,
D'wedant wrtho, "noswaith dda;
Yntau wrida wrth eu hateb,
A than wenu, cysgu wna:
Fel yr haul, O boed i ninau
Fachlud yn yr angeu du;
Huno gyda chan a gwenau,
Fel cawn godi byth mewn bri.

## Y GAWOD.

Mae'r wybren i gyd yn gwmwl,
A'r awyr oll yn wlaw;
Nid oes ond tarth a nifwl
I'w weled ar bob llaw;
Gwlaw, gwlaw, gwlaw, yn ddibaid gawod ddaw
I lawr yn ddu ei lun,
A minau yn ei ganol, mor wlyb a'r gwlaw ei hun;
Ond aeth y gawod heibio er trymed ydoedd hi,
A'r haul a welir eto fel arfer yn ei fri:
Ac felly gorthrymderau,
Er dued ydynt hwy,
Ddiflanant fel cymylau,
Ac ni ddychwelant mwy.

## Y WAWR.

GEILW'R haul ei ferch i fyny
Gyda chusan ar ei grudd,
Hithau gwyd ei phen dan wenu,
Ac agora ddorau'r dydd,
Tyn y llen oddiar ei gwyneb—
Gad i'r bydoedd wel'd ei gwedd,
Ac yn llewyrch ei dysgleirdeb
Gwena'r bore gwyn mewn hedd:
Fel y wawr cyfodwn ninau
Gyda gwenau ar ein grudd,
A dysgleiriwn mewn rhinweddau
A daioni—oriau'n dydd.

Digitized by Google

## Y WENYNEN.

**Gwenynen** fach yr ha', o flodyn i flodyn yr a
I gasglu mel, ac yn ol ni ddel
Nes cael y mel fwynha;
Dan ganu trydd i'w thaith—
Dan ganu gwnaiff ei gwaith,
A than ei llwyth, ei dyddiol ffrwyth,
Ni pheidia ganu chwaith;
A chanu bydd ar hwyr y dydd
Ar ol ei llafur maith.
Megys y wenynen fach,
Dan ganu gweithiwn ninau,
Felly byddwn gryf ac iach,
A dedwydd dan ein beichiau.

## Y CWMWL.

Y **Cwmwl** du, sy'n hofian fry,
Fel cysgod edyn angau;
Pelydrau cry' yr haulwen gu,
Ni threiddiant drwy'i blygiadau;
Edrycha draw, fel byd o fraw
Ar ddisgyn ar y ddaear,
Ond cynar wlaw o'i fynwes ddaw,
I faethu'r egin cynar;
Ac felly gorthrymderau,
Er dued yw eu gwedd,
Adawant ar eu holau,
Yn aml, fwynhad a hedd.

## Y BORE NIWLIOG.

Cyfodai'r bore'n brudd,
A dagrau ar ei rudd, o wely'r nos;
Ond erbyn haner dydd,
Fe wnaeth yr haulwen rydd ei ruddiau fel y rhos;
Ac yn yr hwyr, uwch caerau'r nen,
Dan wenu. gwyrodd lawr ei ben
I gysgu hun, ar fynwes wen y Lleuad dlos;
Ac felly, llawer oes
Yn myd y boen a'r gwaeledd,
Er dechreu gyda loes,
Ddiwedda mewn gorfoledd.

Digitized by Google

## Y LLOER.

GWEN yw'r Lloer, gwelw ac oer
 Fel delw arian ;
Tebyg yw i olwg y byw,
 I'r nos ei hunan ;
Unig a phrudd, ni oddefa i'r dydd
 Ei gwel'd mor brudd a gwelw ;
Ac edrych ni fyn ar ddim ond y llyn,
 Lle gwel ei delw ;
  A llawer bron, sydd fel y Lloer
   Yn cuddio'i galar.
  A'i golwg ar ei llety oer
   Yn mynwes daear.

## Y MORGRUGYN.

MAE'R doeth forgrugyn bach,
I'w les ei hun a'i ach,
 Yn gweithio'n rhydd
 Tra byddo'n ddydd,
Ac yntau'n gryf a iach.
Trysora ddyddiau haf,
Nes llanw'r fan lle saf,
 Erbyn daw y gauaf du,
Ac yntau'n wan a chlaf.
Os yw ei ddyddiau ef yn faith
 A'i lwyth yn fwy nag ef ei hun,
Mae calon ddewr yn gwneyd y gwaith
 Yn ysgafn, ysgafn, i bob un ;
Ac yn dal caiff ganu'n gu,
Pan y daw y gauaf du.
 Fel y doeth forgrugyn bychan,
  Gweithiwn ninau ddyddiau haf;
 Da fydd cael ychydig arian
  Erbyn myn'd yn hen neu glaf.

Digitized by Google

## PENILL NEWYDD AR HEN DESTYN

YMLYNWN wrth ein gwlad a'n hiaith,
  A dywedwn wrth bob gelyn,—
Boed oes y byd i'r iaith Gymraeg,
  Ac oes y nefoedd wed'yn.

## YR EOS.

CANU mae'r eos ganiad dlos,
Megys angyles ganol nos;
Heb neb i'w gwrando, na gwel'd ei llun,
Ond anian lan a hithau'i hun.
    Pe na b'ai neb i wrando,
      Na gwybod am ei bri;
    Na phrydydd i ddarlunio
      Ei llais llesmeiriol hi;
Canu'r un fath wnai'r eos lan
Er mwyn y pleser sydd yn y gan.
    Fel yr eos canwn ninau,
      Canwn ganol nos bob un;
    Nid er mwyn i neb ein clywed,
      Ond er mwyn y gan ei hun.

## I'R COEGYN.

Pigog wr cegog yw'r coegyn—a gwirion
Gawg araeth gwag goryn;
Bendithiwyd doniwyd y dyn
A gwybodaeth gwybedyn.

## DECHRAU.

Os byth bydd genyt waith
  Yn gofyn nerth a hamdden,
Ac hwyrach amser maith,
  A llafur blin i'w orphen;
Na feddwl ddim am bwys
  Na maint y gwaith, na'r rhwystrau;
Ond gyda phenderfyniad dwys,
  Dos at dy waith, a dechrau.

Digitized by Google

Os hoffet wneuthur can,
  Arwrgerdd faith, neu gywydd;
A llanw'r gerdd a than,—
  Diddiffodd dan awenydd:
Nac ofna brinder iaith,
  Na thlodi meddylddrychau;
Nid oes yn eisiau at y gwaith,
  Ond calon gref i ddechrau.

Daw meddylddrychau hardd,
  Fyrddiynau, heb eu gofyn;
Fel gwenyn yn yr ardd,
  A mel o dan eu hedyn;
Ond iti ddal dy bin
  Yn barod at y geiriau,
Ni bydd meddyliau byth yn brin,
  I'r dyn sy'n gallu dechrau.

Pa mwyaf fydd y gwaith,
  Y mwyaf fydd y pleser;
Fel dyfnder moroedd maith,
  O dan y llong yn gryfder:
Mae'r gwaith yn nerthu'r llaw
  Sy'n gweithio'n erbyn rhwystrau;
A'r gwaith i ben yn hwylus ddaw,
  A'i wobrwy, wedi dechrau.

## MAE CYMRU ETO'N FYW.

Er gwaethaf gallu Rhufain gynt
  A medr ei dewrion wyr—
Er gwaethaf llawer gwaedlyd hynt
  Ar hyd a lled ein tir:
Er methu enill brwydrau fil,
  A cholli llawer llyw;
Ar ol y llid ar lladd i gyd,
  Mae Cymru eto'n fyw.

Os llwyddodd dichell llid a brad,
  I lifo'r tir a gwaed;
Os syrthiodd myrdd o'n tadau dewr
  Yn garnedd dan eu traed;
Er gwaethaf twyll a brad y sais
  A gormes o bob rhyw—
Ar ol y twyll ar brad i gyd,
  Mae Cymru eto'n fyw.

Digitized by Google

Os esgeuluswyd Cymru fad
  Gan rai o'i phlant ei hun—
Os gwerthwyd hi ar ddydd y frwydr
  Gan fradwyr lawer un :
Er gwaethaf esgeulusdod pawb
  Er dyfned oedd y briw—
Ar ol y brad ar blinder oll,
  Mae Cymru eto'n fyw.

Prophwydwyd gan brophwydwyr gau
  O oes i oes heb baid,
Mai angau oedd ei thynged hi—
  Mai marw fyddai raid ;
Ond wele tra mae'r brudwyr ffol
  Yn isel dan yr yw,
Ar daroganwyr oll yn fud—
  Mae Cymru eto'n fyw.

O'r Dwyrain a'r Gorllewin draw
  O'r gogledd ac or De,
Ymchwyddol lais fel taran ddaw
  Clywadwy dros bob lle ;
Yn uwch ac uwch dyrchafa'r llef
  Ar byd i gyd a'i clyw
Yn bloeddio mewn acenion clir—
  Mae Cymru eto'n fyw.

Anwylir Cymru gan ei phlant
  Mewn gwir angherddol serch,
Ar ol i'r bradwyr suddo lawr
  I waelod angof erch ;
Ac yn Gymraeg fe glywir myrdd,
  Yr oesau oll au clyw,
Yn dweud mor groew ag erioed,
  Mae Cymru eto'n fyw.

BRITISH MUSEUM 14 JY 90

R. J. DERFEL, PUBLISHER, MANCHESTER.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google